taflen wybodaeth

Diffyg talu

Os ydych wedi derbyn rhybudd diffyg talu yn bygwth camau yn eich erbyn dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem.

Mae pethau y gallwch eu gwneud a phobl a all helpu.

Ond mae angen i chi weithredu NAWR!

- **Darllenwch y rhybudd diffyg talu'n ofalus.** Mae'n esbonio beth sydd angen i chi ei wneud, a beth allai ddigwydd os na fyddwch yn ymateb. Os nad ydych yn siŵr beth mae'n ei olygu, gofynnwch i'r benthyciwr neu gynghorydd dyledion.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau – trowch drosodd am fanylion.
- **Gall cynghorydd dyledion drafod ar eich rhan.** Gall awgrymu ffyrdd o ddelio â'r broblem a gwneud yn siŵr y caiff y dyledion pwysicaf eu talu gyntaf.
- **Efallai y gallwch ofyn i lys am fwy o amser i ad-dalu dyled** – ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys. Cadwch gopïau o lythyrau ac e-byst rhag ofn y bydd eu hangen ar y llys.

Os na wnewch rywbeth yn fuan, gall y benthyciwr gymryd camau yn eich erbyn.

Er enghraifft, drwy fynnu eich bod yn talu'r arian sy'n ddyledus, neu drwy adfeddiannu nwyddau wedi'u hurbwrcasu. Os yw'r benthyciad wedi'i sicrhau yn erbyn eich cartref, gallech golli eich cartref. Gallai'r diffyg talu aros ar eich ffeil credyd am chwe blynedd, gan ei gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw hyn i gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ddyled, neu i gael manylion ble i gael cyngor o'r fath yn eich ardal chi.

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyled a phynciau eraill, ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol (cyfeiriad yn y llyfr ffôn), neu ewch i **www.adviceguide.org.uk** (Cymru a Lloegr), **www.cas.org.uk** (Yr Alban) neu **www.citizensadvice.co.uk** (Gogledd Iwerddon).

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng **Nghymru, Lloegr neu'r Alban**, ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **www.nationaldebtline.co.uk** i gael cyngor a gwybodaeth am ddyled.

Advice4DebtNI

Os ydych yn byw yng **Ngogledd Iwerddon** ffoniwch **0800 917 4607** neu ewch i **www.advice4debtNI.com** am gyngor ar ddyledion.

Money Advice Scotland

Os ydych yn byw yn **yr Alban**, ffoniwch **0141 572 0237** neu ewch i **www.moneyadvicescotland.org.uk** i gael manylion cyswllt ar gyfer cyngor ar ddyled yn ardal eich cyngor lleol.

Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr

Am gyngor ar ddyled **ledled y DU** ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i **www.cccs.co.uk**

Cyswllt Defnyddwyr

Am **restr lawnach o asiantaethau cynghori annibynnol**, a gwybodaeth am gytundebau credyd a llogi, ffoniwch **08454 04 05 06** neu ewch i **www.cyswlltdefnyddwyr.gov.uk**

AdviceUK

Mae canolfannau aelodau yn cynnig cyngor ar ddyled i'r cyhoedd, gyda rhai'n rhoi cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a phobl ag anableddau. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch **0207 469 5700**.

Sefydliadau defnyddiol eraill

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

Os ydych yn gymŵys i gael cymorth cyfreithiol ffoniwch **0845 345 4 345** am gyngor am ddim neu ewch i **www.communitylegaladvice.org.uk**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gwyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu – ffoniwch **0845 080 1800** neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

Ffoniwch **0800 389 3158** i ofyn am y daflen wybodaeth hon mewn fformat gwahanol.

Paratowyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Cod Cynnyrch OFT966w
Argraffiad 06/10
(h) Hawlfraint y Goron 2010